OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 802 (Cy.111)(C.20)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cynllunio 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - - 10 Mawrth 2012

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwer a roddwyd gan adran 241(3) o Ddeddf Cynllunio 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enw

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2012.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 30 Ebrill 2012 o ran Cymru

2. Bydd darpariaethau canlynol Deddf Cynllunio 2008 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym) yn dod i rym o ran Cymru ar 30 Ebrill 2012—

(a) adran 188;

(b) adran 197 ac Atodlen 11; ac

(c) adran 238 ac Atodlen 13, i'r graddau y maent yn rhoi effaith i'r diddymiadau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

John Griffiths
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

10 Mawrth 2012

(**1**) 2008 p. 29.

YR ATODLEN Erthygl 2

Diddymiadau (Cymru)

Cyfeiriad	*Graddau'r diddymu*
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8)	Adran 61A(1) Yn Atodlen 4A, paragraff 2(4) a (5)

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym, ar 30 Ebrill 2012, ddarpariaethau canlynol Deddf Cynllunio 2008 o ran Cymru, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

adran 188 (gorchmynion datblygu lleol: dileu'r gofyniad i weithredu polisïau);

adran 197 ac Atodlen 11 (apelau: diwygiadau amrywiol); ac

adran 238 ac Atodlen 13 i'r graddau y maent yn rhoi effaith i'r diddymiadau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, sy'n ymwneud â gorchmynion datblygu lleol.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol Deddf Cynllunio 2008 wedi eu dwyn i rym gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adrannau 1 i 4 ac Atodlen 1 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym)	1 Hydref 2009	2009/2260
Paragraffau 24 i 27 o Atodlen 1	1 Hydref 2009	2009/2573
Adrannau 5 i 12 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym)	6 Ebrill 2009	2009/400
Adran 14 yn rhannol (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Mawrth 2010	2010/101
Adran 14 yn rhannol (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	8 Mawrth 2011	2011/705